Estyn
Rhagoriaeth i bawb – Excellence for all
Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

# Adroddiad ar ansawdd gwasanaethau addysg awdurdodau lleol i blant a phobl ifanc

**yng**

**Nghyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful**
**Y Ganolfan Ddinesig**
**Stryd y Castell**
**Merthyr Tudful**
**CF27 8AN**

**Tachwedd 2012**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**
**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**
**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol y darparwr a'i allu i wella.

Yn yr arfarniadau hyn, rydym yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

**Rhagorol**
**Da**
**Digonol**
**Anfoddhaol**

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 38 Deddf Addysg 1997, Deddf Plant 2004 a Deddf Dysgu a Sgiliau 2000.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor
Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg)**

**© Hawlfraint y Goron 2013: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 20/02/2013**

## Cyd-destun

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful yng nghanol de Cymru.  Mae'n ffinio ag awdurdodau cyfagos Powys i'r gogledd, Caerffili i'r dwyrain a Rhondda Cynon Taf i'r Gorllewin.  Cyfanswm y boblogaeth yw 58,851.

Ym Merthyr Tudful, dywed 8.9% o bobl dros dair oed eu bod yn medru'r Gymraeg o gymharu â chyfartaledd Cymru, sef 19.0%.  Mae 2.3% o'r boblogaeth yn lleiafrifoedd ethnig ac mae hyn yn is na chyfartaledd Cymru, sef 3.6%.

Yn 2011, y gyfradd gyflogaeth ym Merthyr Tudful oedd 58.9% o gymharu â chyfartaledd Cymru, sef 66.7%.  Roedd 29.2% o blant yn byw mewn cartrefi heb waith.  O'r boblogaeth weithio ym Merthyr Tudful, nid oes gan 18.4% unrhyw gymwysterau, ac mae hynny'n uwch na chyfartaledd Cymru, sef 12.1%.

Canran y disgyblion o oedran ysgol gorfodol sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim yw 24.8%, sy'n uwch nag 19.3% yn genedlaethol.  Y lefel hon o gymhwyster yw'r drydedd uchaf yng Nghymru.  Mae 25% o'r ardaloedd ym Merthyr Tudful ymhlith y 10% o ardaloedd mwyaf amddifad Cymru.

Ar 31 Mawrth 2012, roedd yr awdurdod yn gofalu am 193 o blant ym Merthyr Tudful. Roedd 105 o blant ar y gofrestr Amddiffyn Plant.

### Cyd-destun ariannol

Asesiad Gwariant Safonol (AGS) Llywodraeth Cymru ar gyfer Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful yn 2012-2013 oedd £1,752 y pen o'r boblogaeth.  Mae AGS y cyngor y pen o'r boblogaeth wedi bod yn un o'r uchaf yng Nghymru yn gyson dros y blynyddoedd diwethaf, ond roedd yn agosach at y cyfartaledd yn 2012-2013.  Fe wnaeth y cyngor osod ei gyllideb refeniw gyffredinol ar gyfer 2012-2013 ar lefel 3.7% yn uwch na'r AGS, sef y drydedd uchaf yng Nghymru.

Gosododd y cyngor gyllideb addysg, heb gynnwys grantiau, ar gyfer 2012-2013 o £43.7 miliwn.  Yn unol â'r blynyddoedd diwethaf, roedd hyn ychydig yn uwch na lefel y gydran addysg dybiannol yn yr AGS ac mae'n gyfwerth â £4,796 y disgybl, ychydig yn is na chyfartaledd Cymru, sef £4,813 y disgybl.  Roedd cyllideb addysg net y Cyngor ar gyfer 2012/2013 fymryn yn is nag ar gyfer 2011-2012, ond nid felly'r oedd hi mewn llawer o gynghorau eraill.

Cyfanswm y gwariant wedi'i gyllidebu ar ysgolion, wedi'i ddirprwyo neu'i reoli'n ganolog, oedd £4,869 y disgybl (gan gynnwys grantiau), ffigur sydd ychydig yn is na chyfartaledd Cymru.  Mae ffigurau Llywodraeth Cymru'n dangos bod yr awdurdod yn dirprwyo 82.7% o'r gyllideb addysg sydd ar gael i ysgolion, ychydig yn uwch na chyfartaledd Cymru, sef 81%.  Mae hyn yn rhoi cyllidebau dirprwyedig cyfartalog o £4,040 y disgybl mewn ysgolion cynradd, a £4,631 y disgybl mewn ysgolion uwchradd, o gymharu â chyfartaledd Cymru, sef £4,114 a £4,589 y disgybl yn y drefn honno.

## Crynodeb

**Barn gyffredinol:  Anfoddhaol**

Mae gwasanaethau addysg yr awdurdod lleol i blant a phobl ifanc yn anfoddhaol oherwydd:

- bod safonau ar gyfer dysgwyr yn anfoddhaol ym mhob cyfnod allweddol;
- bod cyfraddau gwaharddiadau yn rhy uchel, mae gormod o bobl ifanc sydd heb fod mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant ac mae cyfraddau presenoldeb mewn ysgolion cynradd yn annerbyniol o isel;
- bod cymorth ar gyfer gwella ysgolion a hyrwyddo cynhwysiant cymdeithasol a lles yn anfoddhaol;
- nid yw effaith gwasanaethau cymorth ieuenctid yn cael ei harfarnu i wirio bod y ddarpariaeth yn mynd i'r afael ag anghenion; a
- bod methiant arweinwyr i roi systemau ar waith i nodi cryfderau a gwendidau mewn ysgolion wedi arwain at ddiffyg her a gwelliant annigonol mewn safonau.

Fodd bynnag:

- mae'r awdurdod wedi gweithio'n dda i wella presenoldeb yn ei ysgolion uwchradd dros y blynyddoedd diwethaf;
- mae cyfranogiad yn narpariaeth ieuenctid yr awdurdod, a'r deilliannau o hynny, ymhell uwchlaw'r cyfartaledd cenedlaethol;
- mae'r ddarpariaeth yn dda ar gyfer pobl ifanc sy'n cael addysg heblaw addysg yn yr ysgol , ar gyfer troseddwyr ifanc ac ar gyfer plant sy'n derbyn gofal;
- mae plant a phobl ifanc, gan gynnwys y rhai o grwpiau sy'n agored i niwed, yn ymgymryd yn dda â datblygu llais y dysgwr o fewn yr awdurdod;
- mae'r awdurdod yn bodloni ei rwymedigaethau statudol yn dda mewn perthynas â phlant a phobl ifanc ag anghenion dysgu ychwanegol; ac
- mae ad-drefnu dysgu ôl-16 wedi'i reoli'n dda.

**Gallu i wella:  Anfoddhaol**

Mae rhagolygon gwella'r awdurdod lleol yn anfoddhaol oherwydd:

- nad yw uwch swyddogion ac aelodau etholedig y cyngor wedi herio tanberfformio a deilliannau gwael ar gyfer dysgwyr;
- nad yw swyddogion wedi darparu adroddiadau i aelodau sy'n dadansoddi data perfformiad yn ddigon da i nodi cynnydd meysydd allweddol i'w gwella;
- nad oes proses hunanarfarnu gadarn a pharhaus gan yr awdurdod lleol ar waith ar gyfer ei wasanaethau addysg;
- nad yw'r awdurdod lleol wedi ymateb yn ddigon da i'r argymhellion o arolygiadau blaenorol, gan gynnwys y rhai yn mynd yn ôl i 2004; ac
- nid oes systemau effeithiol gan yr awdurdod i farnu a yw mentrau a gwasanaethau yn cael effaith gadarnhaol ar blant a phobl ifanc nac yn cynnig gwerth da am arian.

Fodd bynnag:

- Mae gweledigaeth lefel uchel yn dod i'r amlwg o fewn yr awdurdod, a gefnogir gan ymrwymiad uwch arweinwyr, penaethiaid ysgolion a llywodraethwyr, i fynd i'r afael â'r heriau.

## Argymhellion

A1 Sicrhau deilliannau gwell ar gyfer dysgwyr ym mhob cyfnod allweddol, a dadansoddi a defnyddio data perfformiad i nodi a mynd i'r afael â thanberfformiad

A2 Cryfhau lefel yr her i ysgolion, a defnyddio'r pwerau llawn sydd ar gael i'r awdurdod i wella arweinyddiaeth a rheolaeth mewn ysgolion sy'n tanberfformio

A3 Llunio a chymhwyso strategaethau gwell i leihau nifer y bobl ifanc sydd heb fod mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant, ac adeiladu ar strategaethau presennol i leihau'r nifer sy'n cael eu gwahardd o'r ysgol a gwella cyfraddau presenoldeb disgyblion, yn enwedig mewn ysgolion cynradd

A4 Datblygu fframwaith hunanarfarnu cadarn ar gyfer gwaith gwasanaethau addysg yr awdurdod lleol, a chyflwyno targedau perfformiad priodol a heriol sy'n ysgogi gwelliant

A5 Datblygu fframwaith craffu mwy trylwyr, a'i ategu gan ddadansoddi data, i herio'r gwasanaethau addysg

A6 Sicrhau bod data ar anghenion a chyrhaeddiad pob disgybl ag anghenion dysgu ychwanegol, a grwpiau sy'n agored i niwed, yn cael ei ddefnyddio ar lefel strategol er mwyn nodi materion a thueddiadau penodol sy'n llywio cynllunio gwasanaethau

A7 Arfarnu effaith y Gwasanaethau Cymorth Ieuenctid er mwyn addasu'r ddarpariaeth ac ail-gydbwyso dyrannu adnoddau lle bo angen

A8 Datblygu a gweithredu systemau i farnu a yw mentrau a gwasanaethau yn cael effaith gadarnhaol ar blant a phobl ifanc ac yn cynnig gwerth da am arian

### Beth sy'n digwydd nesaf?

Bydd yr awdurdod lleol yn llunio cynllun gweithredu i ddangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion hyn o fewn 50 diwrnod gwaith o dderbyn yr adroddiad.

Mae Estyn o'r farn fod yr awdurdod yn dod o dan y categori gweithgarwch dilynol o fod angen mesurau arbennig, a bydd yn rhoi gwybod i Lywodraeth Cymru am yr argymhelliad hwn.

Bydd unrhyw waith arolygu dilynol yn cael ei gynllunio gan ystyried gweithgarwch arolygu a rheoleiddio arall mewn awdurdod. Bydd yr holl arolygiadau dilynol yn cael eu nodi ar Galendr Rheoleiddio Awdurdodau Lleol i osgoi dyblygu a manteisio ar unrhyw gyfleoedd i weithio'n agosach gyda Swyddfa Archwilio Cymru (SAC) ac Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC).

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Anfoddhaol |
|---|---|

**Safonau: Anfoddhaol**

Cyfran y dysgwyr ym Merthyr Tudful sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim yw'r drydedd uchaf yng Nghymru. Fodd bynnag, hyd yn oed pan ystyrir y lefelau uchel hyn o amddifadedd, mae perfformiad ymhell islaw'r cyfartaledd.

Yn 2012, yn ysgolion cynradd Merthyr, canran y disgyblion sy'n cyflawni dangosydd deilliannau'r Cyfnod Sylfaen (DCS) a'r ganran sy'n cyflawni'r dangosydd pwnc craidd (DPC) yng nghyfnod allweddol 2 oedd yr isaf yng Nghymru. Yng nghyfnod allweddol 3 yn 2012, roedd gwelliant cyflymach o ffigur 2011 yn y ganran a gyflawnodd y DPC na'r cyfartaledd ar gyfer Cymru. Ond roedd hwn o sylfaen isel, a'r perfformiad yw'r ail isaf yng Nghymru. Yng nghyfnod allweddol 4, fe wnaeth perfformiad wella ar gyfradd arafach na Chymru ar bedwar o'r pum prif ddangosydd, ac ar y dangosyddion hynny ar gyfer Saesneg a mathemateg, disgynnodd perfformiad dros chwe phwynt canran, a hwn yw'r gwaethaf yng Nghymru.

Yn 2012, bu gwelliant sylweddol yng nghanran y dysgwyr sy'n gadael addysg amser llawn heb gymhwyster, ac erbyn hyn mae'n well na chyfartaledd Cymru. Yn y tair blynedd flaenorol, roedd ymhlith y gwaethaf yng Nghymru.

Pan gaiff y perfformiad yn ysgolion Merthyr ei gymharu â pherfformiad ysgolion tebyg yng Nghymru, ar sail y ganran sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim, mae perfformiad ymhell islaw'r cyfartaledd. Ym mhob cyfnod allweddol, mae gormod o ysgolion islaw'r cyfartaledd ac mae gormod yn y 25% isaf. Yng nghyfnod allweddol 3, mae hanner yr ysgolion uwchradd yn y chwarter isaf ac nid oes unrhyw ysgolion yn y chwarter uchaf. Yng nghyfnod allweddol 4, nid oes unrhyw ysgolion uwchlaw'r cyfartaledd ar gyfer trothwy lefel 2, gan gynnwys Saesneg a mathemateg ac ar gyfer y DPC. Dim ond ar un dangosydd y mae'r ysgol yn y chwarter uchaf.

Yn 2011, llwyddodd Merthyr i gyrraedd dau feincnod cyfnod allweddol 4 Llywodraeth Cymru ar gyfer perfformiad yn seiliedig ar hawl i gael prydau ysgol am ddim. Ni lwyddodd i gyrraedd meincnod cyfnod allweddol 3. Yn 2010 methodd ddau o'r tri meincnod hyn. Yn 2012, methodd y ddau feincnod ar gyfer cyfnod allweddol 4. Nid oes dadansoddiad ar gyfer cyfnod allweddol 3 ar gael eto.

Mae cynnydd da yn cael ei wneud rhwng ysgolion cynradd ac uwchradd yng nghyfnod allweddol tri. Fodd bynnag, yn 2011 a 2012, mae islaw'r cyfartaledd yn gyffredinol yng nghyfnod allweddol 4, er bod cynnydd o ran y trothwy lefel 2 yn dda.

Yn 2012, mae'r bwlch rhwng perfformiad bechgyn a merched yng nghyfnod allweddol 2 yn llai na'r cyfartaledd ar gyfer Cymru. Fodd bynnag, yng nghyfnod allweddol 2 ac ar ddau ddangosydd yng nghyfnod allweddol 4, mae'r bwlch yn fwy nag ar draws Cymru. Mae'r bwlch rhwng dysgwyr â hawl i gael prydau ysgol am ddim a dysgwyr eraill yn fwy na chyfartaledd Cymru ym mhob cyfnod allweddol. Yn gyffredinol mae disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn gwneud cynnydd o ran cyflawni eu

targedau unigol. Ond nid oes dadansoddiad ar gael yn gyson ar gyfer pob grŵp, gan gynnwys dysgwyr sy'n agored i niwed. Mewn ysgolion cynradd, mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion sy'n derbyn cymorth i wella'u medrau llythrennedd yn gwneud cynnydd da, ac mae llawer yn cynnal y gwelliant hwn at ddiwedd cyfnod allweddol 2. Mae profion darllen ar draws ysgolion yr awdurdod yn dangos bod bron i 40% o ddisgyblion yn gadael yr ysgol gynradd gyda lefelau llythrennedd ymarferol sydd islaw'r lefelau disgwyliedig.

Yng nghyfnod allweddol 2 yn 2012, roedd perfformiad mewn Cymraeg mamiaith yn uwch na chyfartaledd Cymru, a bu gwelliant ar raddfa gyflymach na chyfartaledd Cymru o ran perfformiad mewn Cymraeg ail iaith. Yng nghyfnod allweddol 3, fodd bynnag, canran y dysgwyr yn cyrraedd lefel 5 o leiaf mewn Cymraeg ail iaith oedd yr isaf yng Nghymru yn 2012. Yn 2011, roedd canran y dysgwyr yn ennill cymhwyster llawn mewn Cymraeg ail iaith yng nghyfnod allweddol 4 ymhlith y gorau yng Nghymru. Ond nifer fach iawn a ymgeisiodd, ac mae'n gyfwerth ag ond ychydig dros un o bob deg o ddysgwyr cymwys yn ysgolion uwchradd Merthyr.

Mae dysgwyr yn ennill amrywiaeth dda o gymwysterau yn sgil cyfleoedd a gynigir mewn lleoliadau anffurfiol a ffurfiol, gan gynnwys cymwysterau â ffocws ar waith. Yn benodol, mae canran y dysgwyr sy'n gysylltiedig â Gwasanaeth Ieuenctid Merthyr Tudful sy'n ennill cymwysterau achrededig ymhell uwchlaw'r cyfartaledd cenedlaethol.

**Lles: Anfoddhaol**

Mae presenoldeb mewn ysgolion uwchradd wedi gwella dros y tair blynedd diwethaf, ac ar hyn o bryd mae ychydig yn uwch na chyfartaledd Cymru. Mae pob un o'r pedair ysgol uwchradd yn yr hanner uchaf o ysgolion o'u cymharu ag ysgolion tebyg ar y meincnodau prydau ysgol am ddim. Yn yr ysgolion cynradd, fodd bynnag, nid yw presenoldeb yn ddigon da ac mae cyflymder cynnydd yn rhy araf. O'u cymharu ag ysgolion tebyg, mae bron pedair o bum ysgol yn yr hanner isaf, ac mae bron hanner yn y 25% isaf.

Ni fu unrhyw waharddiadau parhaol o ysgolion cynradd nac ysgolion uwchradd dros y ddwy flynedd diwethaf. Fodd bynnag, mae nifer y gwaharddiadau cyfnod penodol wedi cynyddu'n raddol yn yr ysgolion cynradd ac uwchradd, ac yn 2011 roedd ymhlith y gwaethaf yng Nghymru ar gyfer gwaharddiadau cyfnod byrrach a hwy. Mae nifer y diwrnodau a gollwyd yn sgil gwaharddiad ymhlith yr uchaf yng Nghymru hefyd. Mae data heb ei ddilysu ar gyfer 2012 yn dangos bod nifer y gwaharddiadau cyfnod penodol mewn ysgolion uwchradd wedi gostwng.

Mae plant a phobl ifanc, gan gynnwys y rhai o grwpiau sy'n agored i niwed, yn ymgymryd yn dda â datblygu llais y dysgwr o fewn yr awdurdod. Mae nifer dda o bobl ifanc yn manteisio ar gyfleoedd i gael cynrychiolaeth ar grwpiau strategol gyda swyddogion ac aelodau etholedig. Mae ei hymglymiad wedi cael effaith uniongyrchol ar newid polisi.

At ei gilydd, mae canran y dysgwyr sy'n parhau mewn addysg amser llawn wedi gwella ar gyfradd debyg i gyfradd Cymru dros y blynyddoedd diwethaf. Fodd bynnag, nid yw'r awdurdod wedi cau'r bwlch yn sylweddol â chyfartaledd Cymru, ac

yn 2011 roedd yn parhau yr ail isaf yng Nghymru. Bu gostyngiad yn 2011 yng nghanran y bobl ifanc Blwyddyn 11 nad ydynt mewn addysg, hyfforddiant na chyflogaeth (NEET), er yn gyffredinol nid yw'r gwelliant yng nghanran y bobl ifanc NEET dros y blynyddoedd diwethaf wedi bod gystal â'r gwelliant ar gyfer Cymru gyfan.

Mae 29% o bobl ifanc ym Merthyr Tudful yn cyfranogi yng ngwasanaeth ieuenctid yr awdurdod lleol. Dyma'r drydedd ganran uchaf yng Nghymru, ac mae ymhell uwchlaw'r cyfartaledd cenedlaethol.

| Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth? | Anfoddhaol |
|---|---|

**Cymorth ar gyfer Gwella Ysgolion: Anfoddhaol**

Mae cytundeb partneriaeth newydd gan yr awdurdod lleol sy'n fanwl, yn amlinellu'n glir beth yw cyfrifoldebau'r awdurdod lleol ac ysgolion ac yn rhoi strwythur defnyddiol i gynorthwyo gwelliant mewn safonau ar draws yr awdurdod. Mae pob ysgol yn ymwybodol o'r system gymorth newydd. Nid yw'r trefniadau ar gyfer monitro a herio cynnydd ysgolion wedi'u nodi'n glir eto, fodd bynnag. Nid oes system effeithiol wedi bod ar waith gan yr awdurdod dros y blynyddoedd diwethaf i nodi cryfderau a gwendidau ysgolion. O ganlyniad, nid yw'r awdurdod lleol wedi herio ysgolion yn briodol, ac nid yw ysgolion wedi gwella'n ddigon cyflym.

Yn ddiweddar iawn, mae'r awdurdod wedi gwella ei gymorth a'i her i ysgolion. Mae dadansoddiad mwy heriol o ddata perfformiad yn rhoi darlun mwy cywir o safonau ar draws yr awdurdod. Fodd bynnag, nid yw prosesau i arfarnu arweinyddiaeth a rheolaeth mewn ysgolion yn ddigon cyson na thrwyadl. O ganlyniad, nid yw'r awdurdod wedi mynd ati'n ddigon da i herio uwch arweinwyr mewn ysgolion sy'n tanberfformio.

Mae adroddiadau ar fonitro ysgolion yn rhy ddisgrifiadol a dim ond ychydig ohonynt sy'n cynnig arfarniad beirniadol da. Yn ogystal, nid yw'r adroddiadau hyn yn cynnwys ffocws ddigon manwl ar godi safonau. Nid ydynt yn nodi cryfderau a gwendidau nac yn argymell camau gweithredu'n ddigon penodol. Nid yw'r awdurdod yn monitro ansawdd a chysondeb yr adroddiadau hyn yn ddigon da. Mae hyn yn golygu nad yw ysgolion wedi cael adborth clir ar sut i wella, ac mae cynnydd wedi bod yn rhy araf.

Lle mae ysgolion yn peri pryder, nid yw'r awdurdod wedi ymyrryd yn ddigon cynnar nac effeithiol. O ganlyniad, yn y cylch arolygu presennol, rhoddwyd dwy ysgol gynradd yn y categori mesurau arbennig a rhoddwyd dwy ar y rhestr ar gyfer eu monitro gan Estyn. At hynny, nid yw'r awdurdod lleol wedi bod yn ddigon effeithiol yn cefnogi ysgolion cynradd sydd wedi'u rhoi yn y categori achosi pryder mewn arolygiad gan Estyn dros y blynyddoedd diwethaf.

Dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf, mae'r awdurdod wedi cyflwyno mentrau i wella safonau llythrennedd. Mae'r awdurdod wedi cydnabod nad yw'r mentrau hyn wedi gweithio'n ddigon da i godi safonau ac mae wedi newid ei ddull gweithredu i gynnwys pwyslais ar ddarllen. Mae'n rhy gynnar i fesur effaith y pwyslais newydd hwn. Nid yw dulliau i wella safonau mewn rhifedd wedi'u datblygu'n dda. Ar y cyfan, nid yw

mentrau i godi safonau wedi'u targedu'n benodol ac yn ddigon cyflym yn ôl anghenion unigol ysgolion. Mae'r awdurdod yn darparu amrywiaeth eang o ddewisiadau a chyfleoedd i ddysgwyr 14 i 19 oed.

Mae'r awdurdod yn cynnig cyfleoedd hyfforddi priodol i reolwyr canol ac uwch reolwyr, gan gynnwys defnyddio mentoriaid cymheiriaid. Mae ailffurfio'r fforwm penaethiaid yn ddiweddar wedi bod yn gymorth o ran datblygu eu defnydd o ddata perfformiad ac o ran lledaenu strategaeth llythrennedd yr awdurdod. Fodd bynnag, nid oes llawer o waith wedi'i dargedu mewn ysgolion lle mae gwendidau yn yr arweinyddiaeth a'r rheolaeth a lle nad yw agweddau ar hunanarfarnu a chynlluniau gwella ysgolion wedi'u datblygu'n ddigonol.

Mae'r awdurdod yn cynnig amrywiaeth eang o gyrsiau i fynd i'r afael ag anghenion hyfforddi llywodraethwyr, gan gynnwys hyfforddiant pwrpasol ar gyfer y corff llywodraethol cyfan i gynorthwyo'r llywodraethwyr i gyflawni'u rolau'n fwy effeithiol. Bydd swyddogion yn mynychu cyfarfodydd byrddau llywodraethol i gyflwyno adroddiadau perfformiad blynyddol ac mae'r llywodraethwyr yn elwa ar hyfforddiant data sy'n rhoi dealltwriaeth well iddynt o berfformiad ysgolion. Fodd bynnag, nid yw llywodraethwyr yn dwyn penaethiaid i gyfrif yn effeithiol eto, yn enwedig mewn ysgolion ble mae angen i ddeilliannau dysgwyr wella.

**Cymorth ar gyfer Anghenion Dysgu Ychwanegol: Digonol**

Mae'r awdurdod yn bodloni ei rwymedigaethau statudol yn dda mewn perthynas â phlant a phobl ifanc ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY). Mae staff ADY yn cyflwyno pob datganiad o anghenion addysgol arbennig (AAA) o fewn y graddfeydd amser statudol. Mae canran y disgyblion â datganiadau yn isel. Mae rhieni'n hyderus y bydd yr awdurdod yn diwallu anghenion eu plant heb yr angen am ddatganiad, ac o ganlyniad, ychydig iawn o apeliadau sy'n cael eu gwneud i Dribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig Cymru (TAAAC).

Mae'r gwasanaeth ADY yn cynorthwyo ysgolion yn dda i ddatblygu gwybodaeth ac arbenigedd staff. Mae hyn yn cynnwys hyfforddiant effeithiol ar gyfer pob Cydlynydd Anghenion Addysgol Arbennig newydd, sy'n eu galluogi i adnabod anghenion plant at ADY yn gynnar ac i roi strategaethau priodol ar waith.

Mae'r awdurdod wrthi'n casglu data ar anghenion a chyrhaeddiad pob disgybl ag ADY. Gan mai datblygiad diweddar yw hwn, fodd bynnag, nid yw'n olrhain y cynnydd sy'n cael ei wneud gan ddisgyblion dros amser. Yn ogystal, nid yw'r awdurdod yn defnyddio'r data hwn yn ddigon da ar lefel strategol i ddadansoddi deilliannau grwpiau o ddisgyblion nac i gynllunio gwasanaethau.

Mae'r gwasanaeth ADY yn gweithio'n dda gydag ystod o bartneriaid i sicrhau eu bod yn adnabod anghenion plant yn gynnar ac yn darparu ymyrraeth ac adnoddau priodol. Trwy gydweithredu da gydag awdurdod cyfagos, mae'r awdurdod lleol yn gallu darparu gwasanaethau gwell drwy Seicolegydd Addysg a Phlant sy'n medru'r Gymraeg ac Athro Cymwys Disgyblion â Nam ar eu Golwg.

Mae rhieni yn cael cefnogaeth dda gan staff ADY. Mae peilot diweddar o Gynllunio sy'n Canolbwyntio ar y Person yn yr ysgol arbennig wedi bod yn llwyddiannus o ran

cynnwys disgyblion yn fwy effeithiol yn eu dysgu. Mae'r awdurdod bellach yn cyflwyno'r fenter hon fesul cam i ysgolion prif ffrwd.

**Hyrwyddo Cynhwysiant Cymdeithasol a Lles: Anfoddhaol**

Mae'r awdurdod lleol yn darparu ystod eang o wasanaethau wedi'u targedu i gynorthwyo pobl ifanc sy'n agored i niwed. Fodd bynnag, nid yw wedi arfarnu ansawdd ac effaith ei wasanaethau'n ddigon da i hyrwyddo cynhwysiant cymdeithasol a lles. Nid yw'n mynd ati'n briodol i fonitro a dadansoddi data ar gyfer grwpiau o ddysgwyr sy'n agored i niwed. O ganlyniad, ni all yr awdurdod fod yn siŵr fod anghenion y grwpiau hyn o ddysgwyr yn cael eu diwallu.

Mae ystod dda o gymorth wedi cynyddu presenoldeb mewn ysgolion uwchradd yn sylweddol. Fodd bynnag, nid yw data perfformiad ar bresenoldeb mewn ysgolion cynradd yn cael ei ddadansoddi a'i adrodd mor effeithiol, ac mae'r strategaethau a ddefnyddiwyd i fynd i'r afael â'r materion wedi bod yn llai effeithiol. O ganlyniad, nid yw presenoldeb mewn ysgolion cynradd wedi gwella'n ddigon cyflym. Mae'r awdurdod, mewn perthynas ag ynadon, wedi gweithio'n effeithiol i wella presenoldeb plant sy'n absennol yn gyson.

Nid yw gwasanaethau sy'n cefnogi plant a phobl ifanc i aros mewn addysg wedi bod yn ddigon effeithiol o ran atal gwaharddiadau. Fodd bynnag, mae gwelliannau yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, fel cyfarfodydd cymorth disgyblion sy'n galluogi asiantaethau i adnabod plant a phobl ifanc y mae risg iddynt gael eu gwahardd ac i gydlynu camau gweithredu priodol, yn dechrau cael effaith.

Mae'r awdurdod a'i bartneriaid yn cynnig nifer o raglenni effeithiol i leihau cyfran y bobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant (NEET). Fodd bynnag, mae diffyg strategaeth gyffredinol wedi cyfyngu ar gynnydd yr awdurdod i leihau'n sylweddol nifer y bobl ifanc NEET, ac mae'r rhain yn parhau'n rhy uchel. Mae ysgolion uwchradd yn cydweithredu'n dda â'r awdurdod i ddarparu rhaglen addysg dda i bobl ifanc sy'n cael addysg heblaw addysg yn yr ysgol. Mae'r ddarpariaeth cymorth ac addysg yn dda ar gyfer troseddwyr ifanc a phlant sy'n derbyn gofal.

Cynigir ystod dda o ddarpariaeth gan y gwasanaeth ieuenctid, ac mae'n ymgysylltu â chyfran uwch o lawer o bobl ifanc na'r cyfartaledd yng Nghymru. Fodd bynnag, nid yw effaith gyffredinol gwasanaethau cymorth ieuenctid ehangach yn cael ei harfarnu'n ddigon da, ac ni all yr awdurdod fod yn siŵr bod y ddarpariaeth yn mynd i'r afael ag anghenion yn effeithiol.

Mae trefniadau'r awdurdod ar gyfer diogelu yn bodloni'r gofynion, ac nid ydynt yn peri unrhyw bryder. Caiff pob aelod o staff perthnasol wiriad y SCT ac mae polisi i ddiweddaru'r rhain bob tair blynedd; caiff y polisi ei fonitro'n ofalus. Mae rhaglen hyfforddi drylwyr ar waith; caiff presenoldeb ei fonitro'n fanwl ac mae effaith hyfforddiant yn cael ei harfarnu'n effeithiol.

**Mynediad a lleoedd ysgol: Digonol**

Yn y sector cynradd mae gan yr awdurdod gyfran is o leoedd dros ben na chyfartaledd Cymru. Yn 2011, cyfran y lleoedd dros ben yn y sector oedd yr isaf yng

Nghymru, ar ôl gostwng yn gyson dros y tair blynedd diwethaf. Mae hyn wedi cynnwys gostyngiad o 11 (29%) yn nifer yr ysgolion cynradd er 1996. Fodd bynnag, yn y sector uwchradd, mae cyfanswm y capasiti mewn ysgolion sydd heb ei lenwi wedi bod uwchlaw cyfartaledd Cymru am bob un o'r tair blynedd hyd at 2011. Yn 2011, yn sgil cyfanswm y capasiti heb ei lenwi yn y sector, roedd yr awdurdod yn y chwarter isaf o gymharu ag awdurdodau eraill. Nid yw'r un o'r ysgolion uwchradd yn orlawn.

Cafodd cynigion i gau'r chweched dosbarth ym mhob un o ysgolion uwchradd yr awdurdod eu cymeradwyo yn 2011, ac yn y tymor byr, bydd hyn yn cynyddu nifer y lleoedd dros ben yn y sector ymhellach. Fodd bynnag, mae prif fyrdwn rhaglen Ysgolion ar gyfer yr 21ain ganrif yr awdurdod yn mynd i'r afael â hyn gyda phrosiectau mawr yn hanner o'i ysgolion uwchradd. Bydd y cynigion hyn, ynghyd â chau un o ddau safle mewn trydedd ysgol, yn cael gwared ar leoedd dros ben o'r sector ac yn lleihau'r capasiti lleoedd dros ben yn sylweddol erbyn 2016. Yn gyffredinol, rheolwyd y cynigion hyn yn dda.

Mae trefniadau'r awdurdod ar gyfer asesu cyflwr, addasrwydd a digonolrwydd yn gadarn, a hefyd y trefniadau ar gyfer rhagamcanu niferoedd disgyblion. Gwneir defnydd da o wybodaeth am anghenion lleol i wneud defnydd o gapasiti lleoedd dros ben mewn ysgolion cynradd ar gyfer y ddarpariaeth Blynyddoedd Cynnar a Dechrau'n Deg.

Mae Fforwm Derbyniadau Ysgolion effeithiol ar waith. Mae gwasanaethau'n cysylltu'n dda â'i gilydd i sicrhau bod y trefniadau ar gyfer trosglwyddo disgyblion â datganiadau o AAA yn dda rhwng ysgolion cynradd ac ysgolion uwchradd. Mae'r trefniadau derbyn yn effeithiol ar gyfer plant sy'n derbyn gofal. Fodd bynnag, mae'r awdurdod yn cymryd gormod o amser i sicrhau bod rhai disgyblion anodd eu lleoli yn cael eu derbyn yn y sector uwchradd.

Mae'r awdurdod yn adolygu digonolrwydd addysg feithrin yn ei ardal yn rheolaidd, ac yn sicrhau bod lefel briodol o ddarpariaeth y blynyddoedd cynnar yn cael ei chynnig. Fodd bynnag, nid yw systemau i fonitro ac arfarnu safonau ac ansawdd y ddarpariaeth mewn lleoliadau blynyddoedd cynnar a gynhelir yn ddigon cadarn.

Nid oes gan yr awdurdod broffil diweddar o'r ystod o wasanaethau cymorth ieuenctid na throsolwg cynhwysfawr o anghenion. O ganlyniad, ni all yr awdurdod fod yn hyderus bod y gwasanaethau hyn yn cael eu cydlynu'n effeithiol a bod yr holl anghenion yn cael eu bodloni'n briodol.

| | |
|---|---|
| **Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?** | **Anfoddhaol** |

**Arweinyddiaeth: Anfoddhaol**

Mae perthynas yr awdurdod lleol gydag ysgolion yn un o gydweithio a chydweithredu yn gyffredinol ond, heb systemau clir i nodi cryfderau a gwendidau, nid yw wedi bod yn ddigon heriol. Mae diffyg arweinyddiaeth ar bob lefel wedi methu â sicrhau gwelliant parhaus ar draws y gwasanaethau addysg ac, o ganlyniad, mae safonau wedi parhau'n rhy isel. Nid oedd proses sicrhau ansawdd gwaith y gwasanaeth

cynghori allanol blaenorol yn ddigon cadarn i fynd i'r afael â thanberfformio mewn ysgolion.

Nid yw swyddogion wedi darparu adroddiadau ar gyfer aelodau etholedig sy'n dadansoddi data perfformiad ysgolion yn ddigon manwl i allu nodi a mynd i'r afael â meysydd allweddol i'w gwella. Nid yw'r broses graffu felly wedi cael gwybodaeth dda am berfformiad addysg ac mae'r her wedi bod yn wan. Fodd bynnag, bu ffocws ar bresenoldeb mewn ysgolion yn y broses graffu, ac mae hyn wedi cyfrannu at welliannau, er mai dim ond yn y sector uwchradd yw hynny.

Mae codi safonau wedi dod yn flaenoriaeth yn ddiweddar ar gyfer y cabinet newydd a'r cyngor. Cefnogir y flaenoriaeth hon gan ganfyddiadau adroddiad a gomisiynwyd yn allanol ar safonau a deilliannau lles yn ei ysgolion. Mae gweledigaeth lefel uchel yn dod i'r amlwg, a gefnogir gan strategaeth â phum blaenoriaeth allweddol, ac ymrwymiad gan uwch reolwyr, penaethiaid ysgolion a llywodraethwyr i fynd i'r afael â'r heriau. Nid oes dealltwriaeth yn cael ei rhannu rhwng y rhanddeiliaid hyn eto, fodd bynnag, o'r hyn ddylai llwyddiant fod yn y dyfodol, ac mae hyn yn rhwystr i wireddu'r weledigaeth.

Mae fframwaith gwella ysgolion priodol wedi'i roi ar waith gan bennaeth gwasanaeth gwella ysgolion yr awdurdod sydd newydd ei benodi. Cefnogir hyn gan arweinwyr systemau o'r consortiwm rhanbarthol. Mae'n ddatblygiad rhy ddiweddar i fod wedi cael unrhyw effaith ar y safonau isel presennol.

Mae cysylltiadau clir rhwng y strategaeth gymunedol, partneriaethau a chynlluniau a pholisïau corfforaethol, ac adlewyrchir hyn drwy'r gwaith sy'n mynd rhagddo ar hyn o bryd i ddatblygu un cynllun integredig ar gyfer Ebrill 2013, sy'n nodi cyrhaeddiad dysgwyr fel un o'i bedwar blaenoriaeth. Nid yw'r gwelliannau hyn, a mabwysiadu dull atebolrwydd yn seiliedig ar ganlyniadau ar lefel gorfforaethol, wedi treiddio i lefel cynllunio gwasanaethau eto mewn addysg, felly ni all ysgogi'r gwelliant angenrheidiol.

Mae Pennaeth y Gwasanaeth Gwella Ysgolion, Pennaeth y Gwasanaethau Cymdeithasol i Blant a Phennaeth Adfywio Cymdeithasol yn y Gyfarwyddiaeth Gwasanaethau Cymunedol wedi dechrau trafodaethau ar y cyd i ystyried sut gellir mynd i'r afael ag anghenion plant a phobl ifanc. Bydd y gwaith hwn yn canolbwyntio ar gyrhaeddiad yn ogystal â lles, ond mae'n ddatblygiad rhy ddiweddar i fod wedi cael unrhyw effaith ar safonau eto.

Mae aelodau etholedig ac uwch swyddogion wedi gwneud penderfyniadau anodd mewn perthynas â threfniadaeth ysgolion a chael gwared ar leoedd dros ben, ac enghraifft o hyn yw cau'r chweched dosbarth yn yr ysgolion uwchradd a datblygu un fenter ôl-16 yng Ngoleg Merthyr.

**Gwella ansawdd: Anfoddhaol**

Nid oes proses hunanarfarnu gadarn a pharhaus gan yr awdurdod lleol ar waith ar gyfer ei wasanaethau addysg. Mae wedi dibynnu gormod ar arfarniadau a her gan reoleiddwyr, arolygwyr ac ymgynghorwyr i ddweud wrthynt pa mor dda y maent yn gwneud. O ganlyniad, nid yw'n adnabod ei hun yn ddigon da.

Cyflwynodd yr awdurdod lleol adroddiad hunanarfarnu cyn yr arolygiad. Mae'r adroddiad hwn yn rhy ddisgrifiadol, ac nid oes digon o arfarnu tystiolaeth uniongyrchol. Mae'r adroddiad yn canolbwyntio gormod ar agweddau 'newyddion da', ac o ganlyniad nid yw'n mynd ati'n ddigonol i arfarnu'r heriau pwysicaf sy'n wynebu'r awdurdod lleol. Er y cynhwyswyd ystod o randdeiliaid wrth ddatblygu'r hunanarfarniad, ni roddwyd digon o gyfle i aelodau etholedig allweddol i ddylanwadu ar farnau'r adroddiad am ansawdd neu safonau.

Yn ddiweddar, aeth yr awdurdod ati i ailstrwythuro'i brosesau cynllunio strategol, sy'n dod â blaenoriaethau trawsbynciol at ei gilydd yn dda. Mae'r blaenoriaethau hyn yn llywio cynlluniau ar lefel is, ond maent yn anodd eu holrhain i'r amcanion a osodwyd ar gyfer cynlluniau gwasanaeth, ac ar gyfer swyddogion unigol. Nid yw targedau perfformiad yn cael eu tynnu allan o hunanarfarnu effeithiol, ac nid ydynt yn ddigon cywir i ysgogi gwelliant.

Mae defnyddio Ffynnon at ddibenion rheoli perfformiad yn rhoi strwythur defnyddiol iawn i fesur a monitro cynnydd yn erbyn dangosyddion perfformiad a graddfeydd amser cytûn. Fodd bynnag, nid yw'r broses rheoli perfformiad hon yn cipio gwybodaeth bwysig yn ddigonol am effaith gwaith yr awdurdod na'r gwahaniaeth mae'n ei wneud ar gyfer dysgwyr. Felly, nid yw gwasanaethau addysg y gyfarwyddiaeth yn cael eu harfarnu'n ddigon da i helpu aelodau etholedig, gwasanaethau a rheolwyr i ysgogi gwelliant yn effeithiol. Mae arweiniad y Cyngor ar gyfer adrodd ar y lefel hon wedi newid yn ddiweddar, ond nid yw hyn wedi effeithio ar adroddiadau'r gwasanaeth addysg eto.

Nid yw'r awdurdod lleol yn casglu nac yn dadansoddi ystod ddigon eang o ddata ar berfformiad yr holl ddysgwyr, gan gynnwys grwpiau penodol o ddysgwyr. O ganlyniad, nid yw swyddogion yn gwybod ble i dargedu ymyriadau orau ac a yw'r ddarpariaeth yn diwallu anghenion pob dysgwr yn briodol, gan gynnwys anghenion grwpiau dysgwyr wedi'u targedu. Mae adroddiadau'r Adran ar y ddarpariaeth addysg heb fod yn yr ysgol yn defnyddio gwybodaeth am berfformiad yn well.

Nid yw'r awdurdod lleol wedi defnyddio'i bwerau statudol eto i wella tanberfformiad mewn ysgolion yn ddigon cyflym.

Nid yw'r awdurdod lleol wedi ymateb yn ddigon da i'r argymhellion o arolygiadau blaenorol, gan gynnwys y rhai yn mynd yn ôl i 2004. O ganlyniad, nid yw llawer o feysydd ar gyfer gwella wedi symud ymlaen yn ddigon cyflym i sicrhau gwell gwasanaethau, darpariaeth a deilliannau ar gyfer pob dysgwr yn yr awdurdod lleol.

Mae'r awdurdod lleol wedi rhoi Cymunedau Dysgu Proffesiynol (CDPau) ar waith yn ei ysgolion, ac mae wedi gwneud arfarniad ohonynt. Mae'r arfarniad hwn wedi nodi meysydd pwysig i'w datblygu. Mae'r rhain yn cynnwys cysondeb o ran dehongli a rheoli'r broses CDP; casglu a rhannu data; a rhannu arfer orau ar draws grwpiau. Mae'r awdurdod lleol wedi nodi'r materion hyn ei hun, ac mae wedi dechrau cymryd camau i fynd i'r afael â nhw.

**Gweithio mewn partneriaeth: Digonol**

Mae ystod eang o bartneriaethau priodol yn eu lle ar bob lefel i ymgysylltu â rhanddeiliaid a darparu gwasanaethau a phrofiadau i bobl ifanc. Mae'r rhain yn cynnwys y gwasanaethau iechyd, yr heddlu, y sector busnes a'r sector gwirfoddol. Mae deilliannau cadarn gan bartneriaethau unigol, fel y tîm troseddau ieuenctid, ond nid yw hyn yn wir ym mhob partneriaeth lle mae'r dull o fonitro ac arfarnu deilliannau a phrosesau sicrhau ansawdd yn wannach weithiau.

Yn gyffredinol, mae darpariaeth cyrsiau gost-effeithiol gan y Rhwydwaith Partneriaeth Ysgolion/Colegau 14-19. Bu cynnydd yn nifer y disgyblion sy'n llwyddo i ennill cymwysterau galwedigaethol yng nghyfnod allweddol 4 ac mae llwybrau dilyniant gwell i addysg bellach ac addysg uwch.

Mae trefniadau da gan yr awdurdod ar waith i ymgynghori â phobl ifanc a'u cynnwys wrth ddatblygu gwasanaethau. Mae rhaglen bartneriaeth y Gwasanaethau Cymorth Ieuenctid yn canolbwyntio'n bennaf ar waith prosiect llwyddiannus i fynd i'r afael â meysydd lle mae'r angen mwyaf. Fodd bynnag, nid yw'r bartneriaeth yn gweithredu'n ddigon strategol i sicrhau y gall pobl ifanc ddefnyddio ystod gytbwys o wasanaethau cymorth ieuenctid.

Rhoddwyd Cynllun Integredig Sengl (CIS) newydd ar waith yn ddiweddar i resymoli rheoli partneriaethau ar lefel strategol a gwella cysylltiadau cynllunio rhwng meysydd gwasanaeth a phartneriaethau. Mae hyn yn cyfrannu'n dda at ddefnydd mwy effeithiol o amser swyddogion a gwell defnydd o adnoddau. Mae amcanion strategol clir yn y CIS ac mae'n cynnwys nodau cynllunio allweddol partneriaid eraill yn briodol. Mae asesiad o anghenion drafft defnyddiol ar waith i nodi blaenoriaethau cynllunio yn y dyfodol.

Mae uwch swyddogion yn gyfrifol am gyflawni blaenoriaethau allweddol y CIS. Mae hyn yn gwella atebolrwydd uwch swyddogion yn dda, ond nid yw'r Bwrdd wedi sicrhau eto ei fod yn derbyn adroddiadau ar waith yr holl bartneriaid. Mae'r bartneriaeth yn defnyddio prosesau comisiynu a datgomisiynu yn briodol i gyfeirio adnoddai at feysydd allweddol y CIS.

**Rheoli adnoddau: Anfoddhaol**

Mae'r awdurdod yn dechrau defnyddio'i gynllun ariannol tymor canolig a ddatblygwyd yn ddiweddar i gynorthwyo â dyrannu adnoddau i'w flaenoriaethau addysg. Fodd bynnag, nid oes dull strategol cadarn gan yr awdurdod o ddyrannu ei adnoddau ymhellach na'r flwyddyn gyfredol. Hefyd, nid yw rhai cynlluniau prosiectau a gwasanaethau, y mae angen adnoddau ychwanegol i'w cyflawni, yn cynnwys unrhyw wybodaeth fanwl am ddarparu adnoddau. Mae hyn yn rhwystro gallu'r awdurdod i reoli dyrannu adnoddau er mwyn cyflawni'i flaenoriaethau'n effeithiol.

Mae'r awdurdod yn sicrhau cyllid grant reveniw ymhell uwchlaw'r cyfartaledd ar gyfer ystod o fentrau plant a phobl ifanc. Mae'r awdurdod hefyd yn buddsoddi adnoddau cyfalaf a refeniw yn y gwasanaethau addysg. Yn ddiweddar, mae'r rhain wedi cynnwys y rhaglen Ysgolion ar gyfer yr 21ain ganrif, Chwarter Dysgu Merthyr, cryfhau gallu'r swyddog addysg i gyflwyno gwasanaethau a chryfhau goruchwyliaeth

aelodau ar gyfer ysgolion drwy arweinydd portffolio newydd a phwyllgor craffu pwrpasol. Fodd bynnag, nid yw’r buddsoddiad hwn wedi cael effaith eto ar y safonau isel presennol.

Drwy’r Fforwm Ysgolion, mae’r awdurdod wedi datblygu dull mwy effeithiol o ddelio â balansau a diffygion ariannol ysgolion dros y blynyddoedd diwethaf. Mae cyfanswm y balansau sy’n cael eu cadw gan ysgolion wedi gostwng dros nifer o flynyddoedd ac erbyn hyn mae islaw cyfartaledd Cymru fesul disgybl.

Nid oes systemau effeithiol gan yr awdurdod i farnu a yw mentrau a gwasanaethau’n effeithio’n gadarnhaol ar blant a phobl ifanc, neu’n cynnig gwerth da am arian. Mae hyn yn rhwystro cynnydd wrth gynllunio gwelliannau effeithiol i wasanaethau neu arbedion effeithlonrwydd. O ganlyniad, ac o ystyried cyrhaeddiad isel disgyblion, mae’r awdurdod yn cyflawni gwerth anfoddhaol am arian o’i adnoddau.

# Atodiad 1

**Y tîm arolygu**

| | |
|---|---|
| Iwan Roberts | Arolygydd Cofnodol |
| Gerard Kerslake | Arolygydd Tîm |
| Caroline Rees | Arolygydd Tîm |
| Gareth Wyn Jones | Arolygydd Tîm |
| Sarah Lewis | Arolygydd Tîm |
| Mark Campion | Arolygydd Tîm |
| Huw Davies | Arolygydd Tîm |
| Karen Lees | Swyddfa Archwilio Cymru |
| Richard Parry | Arolygydd Cymheiriaid |
| Linda Thomas | Arolygydd Cymheiriaid |
| Lorraine Buck | Enwebai |

**Copïau o'r adroddiad**

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)

# Rhestr termau

**Cwricwlwm Cenedlaethol**

**Lefelau disgwyliedig y Cwricwlwm Cenedlaethol**

- Erbyn diwedd cyfnod allweddol 1, yn saith oed, disgwylir i ddysgwyr gyrraedd lefel 2 a disgwylir i'r rhai mwy galluog gyrraedd lefel 3.
- Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, yn un ar ddeg oed, disgwylir i ddysgwyr gyrraedd lefel 4 a disgwylir i'r rhai mwy galluog gyrraedd lefel 5.
- Erbyn diwedd cyfnod allweddol 3, yn bedair ar ddeg oed, disgwylir i ddysgwyr gyrraedd lefel 5 a disgwylir i'r rhai mwy galluog gyrraedd lefel 6 neu 7.

**Y dangosydd pwnc craidd ym mhob cyfnod allweddol**

Mae'r dangosydd pwnc craidd yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig mewn Cymraeg neu Saesneg iaith gyntaf, mathemateg a gwyddoniaeth, sef pynciau craidd y Cwricwlwm Cenedlaethol. Rhaid i ddysgwyr gyrraedd y lefel ddisgwyliedig o leiaf mewn Cymraeg neu Saesneg iaith gyntaf ynghyd â mathemateg a gwyddoniaeth er mwyn cyflawni'r dangosydd pwnc craidd.

**Arholiadau allanol yng nghyfnod allweddol 4 neu ôl-16**

**Dangosydd pwnc craidd** – fel uchod.

**Cymhwyster Lefel 1** – cyfwerth â TGAU gradd D i G.

**Y trothwy Lefel 1** – rhaid i ddysgwyr fod wedi ennill nifer o gymwysterau sy'n gyfwerth â phump TGAU graddau D i G.

**Cymhwyster Lefel 2** – cyfwerth â TGAU gradd A* i C.

**Y trothwy Lefel 2** - rhaid i ddysgwyr fod wedi ennill nifer o gymwysterau sy'n gyfwerth â phump TGAU graddau A* i C.

**Y trothwy Lefel 2 gan gynnwys Cymraeg neu Saesneg iaith gyntaf a mathemateg** – rhaid i ddysgwyr fod wedi ennill cymwysterau lefel 2 mewn Cymraeg neu Saesneg iaith gyntaf ac mewn mathemateg fel rhan o'u trothwy.

**Cymhwyster Lefel 3** – cyfwerth â Safon Uwch gradd A* i C.

**Y trothwy Lefel 3** – rhaid i ddysgwyr fod wedi ennill nifer o gymwysterau sy'n gyfwerth â dwy Safon Uwch graddau A* i E.

Mae'r **sgôr pwyntiau cyfartalog ehangach** yn cynnwys yr holl gymwysterau allanol a gymeradwywyd i'w defnyddio yng Nghymru yn yr oed perthnasol - er enghraifft, yn 16 neu'n 18 oed. I gyfrifo hyn, caiff cyfanswm nifer y pwyntiau a enillir gan yr holl ddysgwyr yn y garfan ei rannu gan nifer y dysgwyr.

Mae'r **sgôr pwyntiau cyfartalog wedi'i gapio** yn cynnwys yr wyth canlyniad gorau yn unig ar gyfer pob disgybl o'r holl gymwysterau a gymeradwywyd i'w defnyddio yng Nghymru yn 16 oed.

**Setiau Data Craidd Cymru Gyfan**

Gall ysgolion ac awdurdodau lleol gyfeirio at berfformiad o gymharu â'u teulu o ysgolion. Crëwyd y teuluoedd hyn o ysgolion i alluogi ysgolion gymharu'u perfformiad ag ysgolion tebyg ar hyd a lled Cymru. Mae teuluoedd yn cynnwys ysgolion â chyfrannau tebyg o ddisgyblion â hawl i gael prydau ysgol am ddim, disgyblion sy'n byw yn 20% o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru, disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig yn cael cymorth drwy'r cynllun gweithredu gan yr ysgol a mwy neu â datganiad, a disgyblion sy'n llai na chymwys o ran dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol.